# Mae'r cyhoeddiad hwn wedi cael ei dynnu

## Mae'r cyhoeddiad hwn wedi cael ei dynnu.

Nid yw'r cyhoeddiad hwn bellach yn gyfredol.

# Credyd Cynhwysol

## Fframwaith Gwasanaethau Cymorth Lleol

### Adroddiad ar Ymatebion

Gorffennaf 2013

# Adroddiad ar Ymatebion i'r Fframwaith Gwasanaethau Cymorth Lleol ar gyfer Credyd Cynhwysol

## Cyflwyniad

Ym mis Chwefror eleni, cyhoeddodd Arglwydd Freud y Fframwaith Gwasanaethau Cymorth Lleol ar gyfer Credyd Cynhwysol ("Y Fframwaith") a ddatblygwyd mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol ac sy'n nodi'r egwyddorion ar gyfer rhoi cymorth i hawlwyr ag anghenion ychwanegol neu gymhleth i'w helpu i gyflwyno ceisiadau am Gredyd Cynhwysol a rheoli'r ceisiadau hynny ac i baratoi ar gyfer gwaith.

Gofynnodd y Fframwaith am sylwadau ar y dull gweithredu arfaethedig a chafwyd 149 o ymatebion o bob rhan o lywodraeth leol, y sector tai a'r sector gwirfoddol.

Bellach cafodd yr adborth hwn ei gofnodi a'i ddadansoddi'n fanwl ac mae’n profi’n werthfawr iawn wrth i ni barhau i ddatblygu'r partneriaethau cyflenwi lleol a fydd yn helpu i gefnogi hawlwyr yn y system newydd, ac ar gyfer y Rhaglen Credyd Cynhwysol ehangach. Rydym yn defnyddio'r adborth hwn mewn sawl ffordd:

- Er mwyn cwblhau agweddau ar y broses o gynllunio'r Fframwaith y mae angen i ni eu rhoi ar waith cyn y caiff Credyd Cynhwysol ei gyflwyno'n ehangach - er enghraifft, manylion o ran sut y caiff arian ei drefnu a'i reoli;
- Er mwyn llywio'r broses o ddatblygu ein cytundebau partneriaeth cyffredin a lleol a gaiff eu rhoi ar waith er mwyn paratoi ar gyfer cyflwyno Credyd Cynhwysol;
- Er mwyn ein helpu i ddatblygu Fframwaith ar gyfer mis Hydref 2013 a fydd yn llywio'r broses o brofi elfennau yr egwyddorion LSSF mewn safleoedd Credyd Cynhwysol ac ardaloedd dethol ychwanegol, a fydd yn ei dro yn ffurfio Fframwaith diwygiedig (Marc 3) yn Hydref 2014, mewn pryd i roi gwybod i amserlenni cyllidebu yr ALI ar gyfer 2015/16;
- Er mwyn bwydo i'r broses barhaus o ddatblygu cynllun y Credyd Cynhwysol.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r ymatebion a gafwyd a gategoreiddiwyd i nifer o themâu a oedd yn codi dro ar ôl tro, y nodir eu manylion isod.

## Dull Gweithredu Cyffredinol

Yn ddieithriad, roedd ymatebwyr yn gadarnhaol o ran yr egwyddorion sy'n sail i'r Fframwaith ac yn awyddus i barhau â'r drafodaeth am gymorth lleol, ac mewn sawl achos, yn awyddus i ddarparu gwasanaethau cymorth eu hunain.

Cyflwynodd sawl un ei ymateb fel datganiad anffurfiol o ddiddordeb mewn gweithio mewn partneriaeth.

Fodd bynnag, yn yr un modd, nododd ymatebwyr nad oedd y Fframwaith fel yr oedd yn cynnwys digon o fanylion i gynnal trafodaethau cynllunio, a chodwyd amheuon o ran yr amserlenni a nodwyd yn y papur a'r angen am gynllun manwl ar gyfer cyflwyno Credyd Cynhwysol.

Yn ogystal â'r ffaith bod angen y wybodaeth hon er mwyn cynllunio, nododd amrywiaeth o ymatebwyr fod angen bod yn eglur ynghylch y ffiniau rhwng Credyd Cynhwysol a Gwasanaethau Cymorth Lleol (LSS). Er enghraifft, gellid diwallu anghenion rhai grwpiau agored i niwed drwy eu cefnogi neu eu hannog i ddefnyddio'r sianelau teleffoni neu wyneb yn wyneb craidd ar gyfer Credyd Cynhwysol.

Mae ymatebwyr yn awyddus i sicrhau bod DWP yn deall y Fframwaith yng nghyd-destun y rhaglen diwygiadau lles ehangach, a'r effaith ar lefel yr angen yn eu cymuned yn ogystal â lefel y gwasanaethau a ddarperir eisoes. Nodwyd hefyd bod gan y diwygiadau lles ehangach oblygiadau o ran cynllunio gwasanaethau ac o ran y rhyngweithio rhwng Credyd Cynhwysol, gwasanaethau statudol lleol a gwaith a ariennir gan LSSF.

## Dull gweithio mewn partneriaeth

Roedd ymatebion i'r Fframwaith yn gadarn o blaid y Dull Partneriaethau Cyflenwi o ran rhoi cymorth lleol, gan dynnu sylw at amrywiaeth o bartneriaethau sy'n bodoli eisoes sy'n cynrychioli arfer da sydd eisoes ar waith ac y mae ganddynt y potensial i ddarparu gwasanaethau lleol i geiswyr Credyd Cynhwysol. Roedd y rhain yn cynnwys Partneriaethau Cynllunio Cymunedol yn yr Alban, grwpiau diwygio lles o dan arweiniad Awdurdodau Lleol a phartneriaethau adfywio economaidd lleol.

Roedd llawer o ymatebwyr o'r farn ei bod yn bwysig bod partneriaethau yn cynnwys amrywiaeth eang o sefydliadau er mwyn sicrhau gwybodaeth leol dda a manteisio i'r eithaf ar wasanaethau sy'n bodoli eisoes. Rydym yn parhau yn ymrwymedig i gefnogi lleoliaeth a byddwn yn tynnu sylw at enghreifftiau o bartneriaethau cynhwysol ac arloesol yn y ddogfen Fframwaith wedi'i mireinio a gaiff ei chyhoeddi ym mis Hydref eleni.

## Diffinio ystyr Agored i Niwed

Ar y cyfan, roedd ymatebwyr yn fodlon â'r rhestr o grwpiau agored i niwed a nodwyd yn Atodiad C o'r Fframwaith, yn arbennig o'i hystyried ochr yn ochr â'r gydnabyddiaeth bod 'agored i niwed' wedi'i ddiffinio gan gyfres fwy cymhleth a deinamig o feini prawf, yn hytrach na dim ond y ffaith bod unigolyn yn aelod o grŵp.

Awgrymodd rhai ymatebwyr ychwanegiadau i'r rhestr o gategorïau o geiswyr agored i niwed a nodwyd yn y Fframwaith (er enghraifft, dioddefwyr cam-drin ariannol a cheiswyr a chanddynt ôl-ddyledion adeg trosglwyddo i'r Credyd Cynhwysol), tra pwysleisiodd eraill bwysigrwydd meddwl y tu hwnt i "gategorïau" wrth ddarparu gwasanaethau. Rydym yn cytuno â'r farn hon ac yn awyddus i sicrhau, er y dylai cymorth i geiswyr fod yn gyfannol ac yn gydgysylltiedig, y dylai hefyd gael ei deilwra i ddiwallu anghenion gwahanol ac unigol.

## Mesur Angen

Cododd ymatebwyr amrywiaeth o bryderon am y tybiaethau a wnaed gan DWP mewn perthynas â lefel, natur a hyd yr angen.

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylai'r broses o asesu a rhagweld angen ystyried cyd-destun ehangach y diwygiadau lles, boed hynny ar lefel leol gan bartneriaethau cyflenwi neu ar lefel genedlaethol gan DWP ac eraill.

Roedd a wnelo un o'r meysydd pryder allweddol â mynediad digidol a llythrennedd digidol. Ar sail arolygon lleol a phrofiad uniongyrchol cleientiaid, roedd gan ymatebwyr amheuon o ran tybiaethau DWP am y defnydd o'r sianel ar-lein. Arweiniodd hyn at y pryder cysylltiedig

na fyddai arian LSS yn ddigon o ddiwallu anghenion grwpiau agored i niwed, sydd fwyaf tebygol o gael eu hallgáu'n ddigidol.

Yn ogystal â chodi pryderon am ganran y ceiswyr â'r sgiliau a'r hyder i ddefnyddio'r sianel Credyd Cynhwysol ar-lein, cododd ymatebwyr bryderon ynghylch seilwaith TG yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, lle y gall mynediad mewn cartrefi a mynediad cyhoeddus fod yn gyfyngedig iawn.
Yn yr un modd, roedd ymatebwyr yn pryderu y gallai'r broses o roi taliadau uniongyrchol ar waith arwain at lefelau uwch o ddyledion a diweithdra. Yn ogystal â hyn, nododd ymatebwyr eu pryder nad oedd DWP, o bosibl, yn gwerthfawrogi lefel y cymorth y byddai ei hangen i roi taliadau uniongyrchol ar waith, gan gynnwys yn y Fframwaith.
Cododd rhai ymatebwyr amheuon ynghylch y dybiaeth y byddai anghenion cymorth a chyngor yn gostwng dros amser. Mewn rhai achosion, roedd hyn yn gysylltiedig â'r darlun ehangach o ran diwygiadau lles, mewn achosion eraill, roedd yn gysylltiedig ag effaith uniongyrchol Credyd Cynhwysol.

Awgrymodd ymatebwyr hefyd fod angen gwahaniaethu'n gliriach rhwng y ceiswyr hynny y byddai ond angen ychydig o gymorth arnynt mewn perthynas â Chredyd Cynhwysol, a'r rheini y gallai fod angen cymorth tymor hwy arnynt i ddod yn ariannol annibynnol. Yn ogystal, nodwyd rhai grwpiau sydd, yn ôl diffiniad yn grwpiau 'llif' (e.e. pobl sy'n dianc rhag cam-drin domestig) ac felly na ddylid tybio y bydd eu niferoedd yn lleihau.

Byddwn yn parhau i drafod y materion hyn gyda'n grwpiau cyfeirio gyda'r nod o adlewyrchu'r hyn a ddysgir yn ein dull gweithredu mewn perthynas ag ariannu a chanlyniadau, ac yn y Fframwaith diwygiedig.

## Natur y partneriaethau

Roedd amrywiaeth eang o dybiaethau o ran natur partneriaethau LSS. Ar un pegwn, ceir Awdurdodau Lleol sy'n cynnig sefydlu gwasanaeth 'rheng flaen' cwbl integredig ar gyfer Credyd Cynhwysol a'r system lles ehangach, gyda threfniadau rhannu data, cyd-leoli a DWP yn darparu swyddogaeth prosesu cefn swyddfa. Ar y pegwn arall, mae ymatebwyr wedi tybio y bydd partneriaeth cyflenwi lleol ar waith gydag aelodaeth eang o sawl sector a threfniadau ar gyfer gwneud penderfyniadau a rennir er mwyn ategu rhwydwaith o wasanaethau *'wedi'u cysoni fel sail i daith unigol ceisiwr'*.

Mae rhai ymatebwyr wedi gofyn am arweiniad cryfach gan DWP o ran y cyfansoddiad gorau ar gyfer partneriaethau cyflenwi lleol.

Codwyd pryderon am ddiffyg gwelededd gofal cymdeithasol yn y Fframwaith. Codwyd pryderon tebyg mewn perthynas â thai ac yn arbennig, darparwyr tai cymdeithasol a nododd llawer o ymatebwyr yr angen i gynnwys y sector gwirfoddol a'r sector cymunedol mewn partneriaethau, gan gynnwys y Swyddfa Cymdeithas Sifil, yn ogystal â Chymdeithasau Tai a sefydliadau VCS eu hunain.

Cododd nifer o ymatebwyr gwestiynau pwysig ynghylch y raddfa ofodol y gallai partneriaethau weithredu arni. Mae rhai Awdurdodau Lleol yn ystyried y potensial ar gyfer 'cais' isranbarthol i ddarparu gwasanaethau LSS. Yn yr un modd, pan fo ymatebwyr yn cynnig datblygu partneriaethau sy'n bodoli eisoes, bydd y partneriaethau hyn yn bodoli ar amrywiaeth o raddfeydd gofodol, ac maent yn debygol o groesi ffiniau rhanbarthol DWP.

## Ariannu

Roedd yr angen am eglurder o ran ariannu a chanlyniadau cysylltiedig yn un o bryderon canolog llawer o ymatebion. Mae gwaith eisoes yn mynd rhagddo, drwy'r Tasglu LSS ar y cyd, i ddatblygu offeryn ariannu manwl. Yn ogystal, byddwn yn gweithio gydag amrywiaeth o randdeiliaid i ddatblygu dull gweithredu mewn perthynas â chanlyniadau sy'n pwyso a mesur yr angen i roi sicrwydd ariannol i ddarparwyr gwasanaethau a'r angen i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i geiswyr a gwerth am arian i drethdalwyr.

Bydd yr offeryn ariannu yn ymdrin â chwestiynau allweddol, megis yr isafswm cynnig ar gyfer gwasanaethau cymorth lleol, a'r ffordd y dylai'r trefniadau ariannu a'r canlyniadau adlewyrchu amrywiadau o ran anghenion lleol (e.e. er mwyn ystyried ffactorau fel gwledigrwydd a lefelau amddifadedd). Gobeithio y byddwn yn gallu ymhelaethu ar yr offeryn ariannu yn ystod y misoedd nesaf.

### Lefel ariannu

Cododd rhai ymatebwyr amheuon ynghylch tybiaethau'r Fframwaith am wasanaethau sy'n bodoli eisoes. Roedd ymatebwyr yn pryderu bod gwasanaethau wedi lleihau'n sylweddol eisoes o ganlyniad i newidiadau o ran ariannu llywodraeth leol, gyda'r potensial ar gyfer eu lleihau ymhellach.

Roedd pryder y dylai arian LSS ddiwallu anghenion grwpiau agored i niwed, yn enwedig y rheini y mae ffactorau lluosog yn eu hatal rhag gwneud cais a'i reoli, neu rhag symud i mewn i waith. Roedd ymatebwyr gwledig yn awyddus iawn i sicrhau na fyddai unrhyw fformiwlâu cenedlaethol yn seiliedig ar linellau sylfaen trefol neu faestrefol, ac y byddent yn rhoi cyfrif priodol am y costau gwasanaeth ychwanegol sy'n gysylltiedig â gwledigrwydd.

Roedd rhai ymatebwyr yn pryderu bod cylchoedd ariannu blynyddol a'r awgrym o fwriad i arallgyfeirio'r gronfa darparwyr mewn fersiynau diweddarach o'r Fframwaith yn golygu bod y cynnig LSS yn cynnwys gormod o risg, yn enwedig i'r Awdurdodau Lleol hynny a oedd yn symud oddi wrth wasanaethau wyneb yn wyneb fel rhan o broses adlinio strategol.

Gwnaeth ymatebwyr amrywiaeth o dybiaethau o ran yr hyn a oedd o fewn cwmpas arian LSS a'r hyn a oedd y tu hwnt i'r cwmpas hwnnw. Tybir yn gyffredinol y dylid cynnwys y meysydd canlynol:

- Arian i gynyddu capasiti o fewn gwasanaethau sy'n bodoli eisoes;
- Arian ar gyfer costau sefydlu gan gynnwys costau cyfalaf, hyfforddiant a gorbenion (costiadau economaidd llawn i bob pwrpas);
- Arian er mwyn helpu i weinyddu'r partneriaethau cyflenwi.

### Rheoli'r Arian

Cred y rhan fwyaf o ymatebwyr Awdurdod Lleol mai nhw sydd yn y sefyllfa orau i reoli arian lleol gan eu bod yn teimlo bod ganddynt ddealltwriaeth gliriach o anghenion lleol a'r broses o ddarparu gwasanaethau yn lleol. Fodd bynnag, mewn llawer o achosion, noda Awdurdodau Lleol y byddai rheoli'r arian ar y cyd, neu sefyllfa lle y byddai'r bartneriaeth gyfan yn rheoli'r arian yn ddewis amgen derbyniol.

Cododd nifer fach o ymatebwyr bryderon lle bo arian yn llifo drwy Awdurdodau Lleol, bod risg y caiff yr arian hwn ei arallgyfeirio i wneud iawn am doriadau i'w Grant Gweinyddu Tai, ac y bydd yn datblygu gwasanaethau sy'n dyblygu gwaith sy'n mynd rhagddo eisoes yn y sector

gwirfoddol a'r sector cymunedol. Roedd yr ymatebwyr hyn o blaid naill ai Rheolwyr Dosbarth yn rheoli'r arian neu'r bartneriaeth cyflenwi gyfan yn ei reoli.

Yn yr Alban, mae COSLA wedi gofyn i'r arian gael ei drosglwyddo fel bloc iddo ei ddosbarthu i Awdurdodau Lleol yn yr Alban, gyda rhai Awdurdodau unigol yn yr Alban yn datgan cefnogaeth gref i'r dull gweithredu hwn.

**Ariannu yn seiliedig ar ganlyniadau**

Roedd nifer sylweddol o ymatebwyr yn gyffredinol o blaid dull gweithredu yn seiliedig ar ganlyniadau mewn egwyddor ond roedd angen mwy o fanylion arnynt o ran sut y byddai'n gweithio'n ymarferol gyda llawer ohonynt yn awyddus i fod yn rhan o'r broses o ddatblygu mesurau canlyniadau priodol a chymesur, a mathau eraill o fesurau y gallai'r Fframwaith ystyried eu defnyddio.

Roedd nifer o ymatebwyr yn rhannu pryderon o ran y cymhellion gwrthnysig a gaiff eu creu gan arian sy'n seiliedig ar ganlyniadau, a'r risg y caiff rhai unigolion fwy o chwarae teg nag unigolion eraill; y risgiau sy'n gysylltiedig ag arian sy'n seiliedig ar ganlyniadau i'r sector gwirfoddol a'r sector cymunedol, lle yr ystyrir bod sefydliadau yn rhy fach i ymdopi â'r risg o gynyddu eu gweithrediadau yn gyfnewid am daliadau ansicr; a'r baich sy'n gysylltiedig â gofynion monitro ac adrodd.

Yn olaf, roedd sawl ymatebwr yn deall yn glir y dylai unrhyw ganlyniadau o fewn Fframwaith sy'n seiliedig ar ganlyniadau ymwneud yn uniongyrchol â'r gwasanaethau a gaiff eu comisiynu, gan nodi bod llawer o'r canlyniadau sy'n gysylltiedig â gwaith a nodwyd yn y Fframwaith y tu allan i gwmpas eu gwasanaethau arfaethedig, ac yn destun ffactorau allanol penderfyniadol (megis natur y farchnad lafur leol). Fodd bynnag, i ymatebwyr eraill, mae cynnwys gwasanaethau sy'n gysylltiedig â gwaith a chanlyniadau sy'n gysylltiedig â gwaith yn allweddol o ran darparu cymorth lleol effeithiol.

Awgrymodd ymatebwyr y byddai elfen o arian gwarantedig (nid dim ond i Awdurdodau Lleol) yn helpu i wrthbwyso'r risg.

## Llywodraethu

Roedd ymatebwyr yn gadarn iawn o blaid datganiad y Fframwaith y dylai partneriaethau cyflenwi lleol fod yn seiliedig ar drefniadau sy'n bodoli eisoes, ac maent wedi nodi amrywiaeth o grwpiau lleol y byddent yn ceisio adeiladu arnynt. Mae rhai ymatebwyr wedi gofyn am fwy o eglurder o ran lefel yr amrywiadau lleol posibl, ac yn arbennig, p'un a oes rhyddid i amrywio'r trefniadau partneriaeth.

Gofynnodd rhai ymatebwyr am eglurder o ran yr isafswm darpariaeth y byddai partneriaethau cyflenwi yn atebol amdano, yn ogystal â safonau gofynnol ac ansawdd gwasanaeth.

Mae sawl asiantaeth wirfoddol arbenigol genedlaethol wedi gofyn p'un a yw'r tîm LSS wedi ystyried gorchymyn dull gweithredu safonol mewn rhai meysydd penodol er mwyn osgoi achosion o ddyblygu ymdrech a sicrhau'r gwerth a'r ansawdd gorau. Dau faes allweddol a nodwyd oedd cyllidebu personol a chymhwysedd TG.

## Tai

Roedd ymdeimlad cryf gan ymatebwyr nad oedd y Fframwaith (a'r Credyd Cynhwysol yn gyffredinol) wedi ymgysylltu'n llawn â'r sector tai a'r cymhlethdod sy'n gysylltiedig â'r broses o drosglwyddo o Fudd-dal Tai, yn enwedig gan ei fod yn ymwneud â grwpiau agored i niwed.

Mae Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac eraill yn pryderu am effaith Taliadau Uniongyrchol ac o'r farn mai integreiddio systemau cefn swyddfa'n agosach yw'r unig ffordd o reoli eu proffil risg a darparu'r data sydd ei angen ar gyfer cyfrifo'r elfen dai, neu gymhellion yn seiliedig ar dai o fewn y Credyd Cynhwysol. Mae Landlordiaid Preifat yn awyddus i sicrhau y cânt eu hystyried fel partner allweddol yn y Credyd Cynhwysol ac LSS, yn enwedig o ystyried eu bod yn berchen ar lawer mwy o stoc na'r sector rhent cymdeithasol mewn rhai ardaloedd.

Yn ehangach, roedd pryder y byddai swyddogaethau ehangach yr ALl, gan gynnwys ei rôl wrth ddiogelu tenantiaethau, neu reoli a rheoleiddio darpariaeth o fewn marchnadoedd lleol, yn cael eu colli wrth ystyried y sector tai mewn perthynas â'r broses o drosglwyddo o Fudd-dal Tai. Yn hyn o beth, gofynnodd sawl ymatebwr am sicrwydd y byddai canlyniadau LSS yn cynnwys pethau fel cynnal a diogelu tenantiaethau, ac y dylai'r rhain fod yn fesurau llwyddiant craidd ar gyfer Credyd Cynhwysol yn gyffredinol.

## Rhannu data

Mae'n amlwg o ymatebion Awdurdodau Lleol fod llawer ohonynt yn tybio lefel o rannu data ac integreiddio cefn swyddfa a fydd, o leiaf, yn cyfateb i'r lefel a geir yn y system budd-daliadau bresennol ac, yn ddelfrydol, yn rhagori ar y lefel honno. Mae rhai ymatebwyr o'r farn na fydd yn bosibl gweithredu LSS (a Chredyd Cynhwysol) heb y lefel hon.

## Integreiddio prosesau

Y tu hwnt i rannu data, cododd ymatebwyr amrywiaeth o gwestiynau am y ffordd y caiff ceiswyr agored i niwed eu prosesu fel rhan o'r trefniadau Credyd Cynhwysol, ac maent eisoes yn tybio y byddant o bosibl yn gallu chwarae rhan allweddol (gan gynnwys wrth wneud penderfyniadau) ar amrywiol adegau yn ystod y broses. Mae'r amrywiaeth o brosesau yn cynnwys: nodi'r ceisydd agored i niwed a'i gyfeirio'n uniongyrchol i Wasanaethau Cymorth Lleol; gwneud penderfyniadau ar Drefniadau Talu Amgen; a dilysu ceisiadau Credyd Cynhwysol.

Mae profiad rhai ymatebwyr yn awgrymu bod rhestrau tebyg i'r rhai a nodir yn Atodiad C yn darparu llwybr defnyddiol o ran cynllunio gwasanaethau, ond na ddylid eu defnyddio ar eu pen eu hunain fel adnodd ar gyfer nodi ceiswyr unigol agored i niwed.

## Y camau nesaf

Wrth ddatblygu'r Fframwaith, gwnaethom ddefnyddio gwybodaeth gan sefydliadau sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda cheiswyr, a gwnaethom weithio mewn partneriaeth agos â Chymdeithasau Awdurdodau Lleol. Wrth i ni anelu at gyflwyno'r Credyd Cynhwysol, a'r Gwasanaethau Cymorth Lleol ategol, yn genedlaethol, byddwn yn parhau â'r sgyrsiau hyn gydag Awdurdodau Lleol, darparwyr tai a'r sector gwirfoddol a'r sector cymunedol drwy waith y Tasglu a'r Grwpiau Cyfeirio.

Yn lleol, mae Rheolwyr Dosbarth Canolfannau Byd Gwaith eisoes yn gweithio i ategu'r broses o ddatblygu partneriaethau a fydd yn darparu gwasanaethau i helpu ceiswyr. Bydd yr ymatebion i'r Fframwaith, yn ogystal â'r hyn a ddysgir o'r Prosiectau Arddangos Taliadau Uniongyrchol a Chynlluniau Peilot o dan arweiniad Awdurdodau Lleol, yn llywio'r gwaith hwn.